# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 195(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Goedwigaeth yng Nghymru

(45 munud)

**Dogfennau Ategol**

Coetiroedd i Gymru: strategaeth

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Strategaeth Dwristiaeth - TYNNWYL YN ÔL

(0 munud)

## 5 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Prentisiaethau: Buddsoddi Mewn Sgiliau ar gyfer y Dyfodol

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoli'r Risg o Lifogydd ac Erydu Arfordirol

(45 munud)

**Dogfennau Ategol**

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach

(30 munud)

**NDM6986** – Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai'r darpariaethau yn y Bil Masnach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Rhagfyr 2017 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Dogfennau'r Bil— Trade Bill 2017-19 — UK Parliament *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## 8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)

(30 munud)

**NDM6987** – Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai'r darpariaethau yn y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2018 a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2019 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Dogfennau'r Bil — Healthcare (International Arrangements) Bill 2017-19 — UK Parliament *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

### Cynnig i Ddyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau i'r Grwpiau Plaid

**NDM6991** - Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2R ac 17.2A, yn cytuno mai'r grŵp gwleidyddol y caiff y cadeirydd pwyllgor ei ethol ohono fydd fel a ganlyn:

(i) Y Pwyllgor Deisebau - Ceidwadwyr Cymreig.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 13 Mawrth 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 07/03/2019 i'w hateb ar 12/03/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**1** OAQ53553

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gydlyniant cymdeithasol yng Nghymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**2** OAQ53578

**(e)**

Pa strategaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn i fynd i'r afael â'r ffordd y mae dosbarth cymdeithasol yn pennu cyfleoedd bywyd pobl yng Nghymru?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**3** OAQ53587

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefel y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i gyn-filwyr y lluoedd arfog?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**4** OAQ53536

**(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru o ran y ddarpariaeth gwasanaethau profedigaeth?

**David Rees** *Aberafan*

**5** OAQ53584

**(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran yr adolygiad o'r gwasanaeth caffael cenedlaethol?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**6** OAQ53534

**(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella perfformiad addysgol yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

7 OAQ53570

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yn Sir Fynwy?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

8 OAQ53567

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â thlodi ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Hefin David** *Caerffili*

9 OAQ53586

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach a chanolig eu maint sy'n adeiladwyr tai?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

10 OAQ53585

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella darpariaeth gofal cymdeithasol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

11 OAQ53537

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu diben llongau patrolio pysgodfeydd Llywodraeth Cymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

12 OAQ53588

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gan ysgolion yn y Rhondda ddigon o gyllid i ddarparu addysg dda i ddisgyblion?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

13 OAQ53540

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd y cynllun cymorth i brynu?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

14 OAQ53558

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

15 OAQ53581

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamblo cymhellol ymysg plant a phobl ifanc?